



Awgrymiadau ardderchog ar gyfer datblygu cyfleoedd gwirfoddoli Cymraeg



A allwch chi gynnig y cyfle i wirfoddolwyr gael eu cefnogi gan aelod o staff drwy gyfrwng y Gymraeg? Os nad oes gennych y capasiti yn eich sefydliad, ystyriwch ffurfio partneriaeth â siaradwyr Cymraeg ar draws prosiectau i gynnig hyn.



Cysylltwch â'ch Menter Iaith leol am gymorth i'ch sefydliad. Gall hyn gynnwys rhwydweithio i hysbysebu cyfleoedd gwirfoddoli i siaradwyr Cymraeg.

Gadewch i wirfoddolwyr a'ch defnyddwyr gwasanaeth wybod pwy yn eich sefydliad sy'n siarad Cymraeg, gellir gwneud hyn drwy wisgo bathodyn neu laniard. Arddangoswch arwyddion sy'n dangos y croesewir y defnydd o'r Gymraeg.

Cynhaliwch drafodaeth â'ch gwirfoddolwyr yn ystod cynefino i ddarganfod a ydynt yn siarad Cymraeg. Anogwch nhw i ddefnyddio eu Cymraeg yn ystod eu gwirfoddoli.

Gwnewch gysylltiadau â sefydliadau lleol i rannu gwybodaeth a phrofiad.



Ystyriwch eich cyfleoedd gwirfoddoli presennol; sut allech chi ddatblygu rolau sy'n cynnwys y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol/dymunol, neu'n denu'r rheiny sy'n dysgu.



Datblygwch waith papur a dogfennau rheoli a recriwtio gwirfoddolwyr ddwyieithog.

Defnyddiwch eich llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu'n ddwyieithog â siaradwyr Cymraeg.



Gall eich defnyddwyr gwasanaeth elwa o'ch sefydliad yn mynd ati i recriwtio gwirfoddolwyr sy'n gallu siarad Cymraeg. Darganfyddwch pwy sy'n siarad Cymraeg i weld a fyddent yn mwynhau gwirfoddolwr sy'n siarad Cymraeg neu fwy o ddeunyddiau ar gael yn Gymraeg. Efallai y gallwch ddod o hyd i wirfoddolwr i helpu i gyfieithu rhai o'ch negeseuon i ddefnyddwyr gwasanaeth.

Hysbyseb wch eich cyfle gwirfoddoli yn ddwyieithog.

Dolenni defnyddiol:



WCVA
<https://wcva.cymru>



Mentrau Iaith
<https://www.mentrauiath.cymru>



Prosiect amlasiantaethol yw

Cymorth Gwirfoddoli Gorllewin Morgannwg

sy'n creu adnoddau a rennir i ddatblygu gwybodaeth gwirfoddolwyr sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr a'r gwaith o'u rheoli a chydlynu ar draws ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Ariennir gan Gronfa Adfer Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru.

Partneriaid y prosiect yw:

Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Cyngor Abertawe, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe a Phartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg.

Am ragor o wybodaeth, ewch i:

www.westglamorgan.org.uk/wgvs